**Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Eryri - Drafft Ymgynghori, Chwefror 2020**

## Crynodeb Annhechnegol

Chwefror 2020

NTS1. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri gyda'i bartneriaid a rhanddeiliaid wedi paratoi Cynllun Rheoli Parc Cenedlaethol newydd o'r enw Cynllun Eryri. Mae'r cynllun ar gam datblygedig o'i baratoad, ac mae'n agored i ymgynghoriad cyhoeddus cyn ei fabwysiadu arfaethedig ar gyfer ei ddefnydd yn y dyfodol i lunio rheolaeth a gofal Parc Cenedlaethol Eryri ar draws ei holl rinweddau arbennig.

NTS2. Fel rhan o'r broses gyffredinol o baratoi'r cynllun, rhaid iddo fod yn destun Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad o Gynaliadwyedd (AAS / AoG). Mae'r ddogfen hon yn grynodeb syml a chryno o'r broses a chanfyddiadau'r broses honno, a chafodd ei hysgrifennu i fod yn hygyrch i gynulleidfa eang. Mae'r 'Adroddiad Cynaliadwyedd' llawn, sy'n cyflwyno canfyddiadau'r broses gyfan, ar gael ar wefan APC ochr yn ochr â drafft llawn o Gynllun Eryri.

**Arfarniad o Gynaliadwyedd - Proses A**

NTS3. Yn y DU, fel arfer caiff proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ei hintegreiddio gyda gofynion cyfraith Ewropeaidd sydd angen i broses debyg iawn o Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) gael ei chynnal.

NTS4. Diben craidd AoG/ AAS yw asesu'r goblygiadau cynaliadwyedd sylweddol tebygol sy'n deillio o ddefnyddio'r cynllun sy'n dod i'r amlwg - yn yr achos hwn, Cynllun Eryri. Gall hyn helpu cyrff sy'n gwneud cynlluniau i adnabod 'perfformiad' cynaliadwyedd y cynllun, h.y. pa bolisïau a allai arwain at fwy - neu lai – o ganlyniadau cynaliadwy, ac i adolygu'r polisïau neu'r cynigion yn unol â hynny, lle mae'n briodol, cyn mabwysiadu'r cynllun.

NTS5. Mae'n bwysig cydnabod bod AoG ac AAS yn *brosesau* ac, ar gyfer Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg, yn gysylltiedig, ac fel arfer ymgymerir â'r rhain ar yr un pryd. Er bod rhai elfennau o'r broses yn cael eu nodi yn y gyfraith, nid oes dull penodedig ar gyfer yr asesiad ei hun. Fodd bynnag, mae rheoliadau a chanllawiau'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Adroddiad Cynaliadwyedd ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- Amlinelliad o gynnwys a phrif amcanion Cynllun Eryri a'i berthynas â chynlluniau a rhaglenni mwyaf perthnasol eraill (er enghraifft, cyfraith amgylcheddol, strategaethau cenedlaethol a rhaglenni lleol ar gyfer amddiffyn a gwella'r amgylchedd, llesiant cymunedol ac iechyd economaidd);
- Disgrifiad o'r agweddau mwyaf perthnasol o nodweddion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd y meysydd sy'n debygol o gael eu heffeithio fwyaf gan y cynllun sy'n dod i'r amlwg, a

sut y gallent ddatblygu yn ei absenoldeb;

- Unrhyw broblemau amgylcheddol, cymdeithasol neu economaidd presennol sy'n berthnasol i'r cynllun, a sut y byddent yn datblygu yn absenoldeb y cynllun;

- Y cyfeiriadau sy'n ffynhonnell i'r amcanion ar gyfer gwarchod yr amgylchedd a sefydlwyd ar lefel ryngwladol, y Gymuned Ewropeaidd ac ar lefel genedlaethol, a sut yr ystyriwyd yr amcanion hynny wrth baratoi'r cynllun;

- Y dull a ddefnyddir yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ac unrhyw gyfyngiadau mewn technegau gwybodaeth neu arfarniad;

- Asesiad o'r opsiynau bras wrth ddatblygu camau gweithredu ac amcanion y Cynllun a'r rhesymau dros ddewis yr opsiynau a ddewiswyd;

- Asesiad o'r mesurau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Eryri arfaethedig yn erbyn blaenoriaethau datblygu cynaliadwy (sy'n benodol i'r ardal), ac felly prif effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y cynllun rheoli;

- Disgrifiad o unrhyw fesurau i fwyafu effeithiau buddiol amcanion a chamau gweithredu'r cynllun, neu i leihau ei effeithiau niweidiol posibl;

- Manylion am sut y bydd y dylanwad amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd sylweddol Cynllun Eryri yn cael ei fonitro;

- Crynodeb annhechnegol o'r broses a'r canfyddiadau manwl (y ddogfen hon).

NTS6. Cynhaliwyd Arfarniad o Gynaliadwyedd Cynllun Eryri sy'n dod i'r amlwg gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

**Y Cynllun sy'n cael ei arfarnu: Cynllun Eryri 2020**

NTS7. Mae Cynllun Eryri yn gynllun sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac mae'r drafft ymgynghori llawn yn cynrychioli cam allweddol yn y broses o ddatblygu cynllun rheoli newydd ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri. Mae'n nodi gweledigaeth hirdymor ac ystod eang o flaenoriaethau rheoli ar gyfer y pum mlynedd nesaf. Bydd yn cael ei ddefnyddio i ddod â phartneriaid at ei gilydd i gyflenwi nodau cyffredin i'r Parc Cenedlaethol a bydd yn sail ar gyfer pennu Cynllun Corfforaethol Awdurdod y Parc Cenedlaethol, rhaglen waith gorfforaethol, a thrwy hynny, reoli perfformiad. Mae'n ceisio datblygu polisïau Parc Cenedlaethol ar bynciau penodol a chynorthwyo i reoli'r broses o wneud penderfyniadau rheolaethol (ond nid i'w pennu). Dylai helpu i ddenu cyllid i gyflenwi'r canlyniadau a'r camau gweithredu a nodwyd. Mae'r cynllun yn cyflwyno amcanion rheoli strategol a phwnc-benodol i

arwain gwaith yr holl bartneriaid sy'n gweithredu i ddiogelu a sicrhau dyfodol cynaliadwy, a sut a ble y dylid rheoli cyfleoedd cadwraeth a hamdden. Fel cynllun rheoli ar gyfer parc cenedlaethol, mae'n gweithredu o fewn cyd-destun polisïau a deddfau pellgyrhaeddol eraill y mae'n rhaid i'r APC weithredu oddi mewn iddynt. Mae'n rhaid i'r cynllun hefyd fod yn ymatebol i nodweddion ac amodau lleoliadol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol penodol iawn ym Mharc Cenedlaethol Eryri, sydd gyda'i gilydd yn golygu bod cwmpas opsiynau yn y cynllun yn cael eu cyfyngu’n sylweddol o gymharu â rhai mathau eraill o gynllun.

NTS8. O ddechrau'r cyfnod o lunio'r cynllun rheoli, bu ystyriaethau cynaliadwyedd wrth galon ein gwaith ar y cyd, a gwnaed yr arfarnu fel proses gyfochrog ac integredig. Mae hyn yn helpu i sicrhau y bydd y cynllun sy’n dod i’r amlwg yn cefnogi penderfyniadau a blaenoriaethau rheoli mwy cynaliadwy, sy'n ofyniad yn ôl y gyfraith. Dechreuodd y broses Arfarniad o Gynaliadwyedd y cynllun hwn yn 2018, pan nododd Adroddiad Cwmpasu amcanion cynaliadwyedd penodol i gymharu’r cynllun â hwy, a hysbysu’r rhai a oedd yn gwneud y cynllun o faterion cynaliadwyedd i’w hystyried yn eu gwaith. Mae hyn yn golygu bod Cynllun Eryri, wrth iddo agosáu at ei fersiwn derfynol, wedi cael ei ddatblygu gyda dealltwriaeth gadarn o'i oblygiadau tebygol i ddatblygu cynaliadwy, ac mae wedi gwella yn hyn o beth wrth iddo esblygu.

**Sut arfarnwyd y Cynllun o ran Buddion Datblygu Cynaliadwy?**

NTS9. Mae'r broses o AoG/ AAS wedi canolbwyntio ar sut y gallai'r Cynllun Eryri sy'n dod i'r amlwg effeithio ar dueddiadau ac amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ar draws y Parc Cenedlaethol, ac edrychwyd ar sut y byddai'r cynllun yn gwneud gwahaniaeth i'r amodau hynny. I wneud hyn, profwyd y canlyniadau a pholisiau sy'n dod i'r amlwg (sef cynigion y cynllun) yn erbyn set o feini prawf a baratowyd yn benodol ar gyfer cyd-destun cynaliadwyedd Parc Cenedlaethol Eryri. Cyfeirir at y 'profion' hyn fel y ***Fframwaith Cynaliadwyedd***, a phrofir pob elfen o Gynllun Eryri yn eu herbyn.

NTS10. Dylanwadwyd ar y Fframwaith Cynaliadwyedd gan ystod eang o bolisïau eraill o fewn strategaethau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol yn ymwneud â materion cynaliadwyedd. Ochr yn ochr â’r rhain, cynhaliwyd asesiad o amodau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a thueddiadau ar draws y Parc Cenedlaethol a nodwyd beth oedd y prif faterion a phryderon cynaliadwyedd. Mae'r ystyriaethau hyn yn sicrhau bod y profion yr arfarnwyd y cynllun sy'n dod i'r amlwg yn eu herbyn yn adlewyrchu materion lleol o bwys, ac yn uniongyrchol berthnasol i'r cynllun. Mae rhai o'r materion cynaliadwyedd allweddol a nodwyd yn ymwneud â’r canlynol:

- Amddiffyn nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol rhag newid niweidiol;
- Gwella gwytnwch tirweddau, ecosystemau ac amgylchedd hanesyddol y Parc Cenedlaethol i heriau newid yn yr hinsawdd, a lleihau ffactorau sy'n achosi newid yn yr hinsawdd;
- Cydbwyso sensitifrwydd tirweddau, ecoleg a threftadaeth y Parc Cenedlaethol gyda'r angen i

gefnogi cyfleoedd i bobl leol a chymunedau cynaliadwy a chytbwys a’u llesiant;

- Diogelu ac atgyfnerthu ein treftadaeth ddiwylliannol unigryw a’r iaith Gymraeg;
- Cynnal economi wledig gadarn a mynediad at wasanaethau i gymunedau gwledig, gan adeiladu ar nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol; a
- Chyfyngu ar effaith ymwelwyr ar y Parc Cenedlaethol, tra'n galluogi gwell mynediad cynaliadwy.

Dengys **Tabl 1** y 'profion' penodol a baratowyd, fel y gellir arfarnu’r cynllun rheoli sy'n dod i'r amlwg yn erbyn ei berfformiad cynaliadwyedd tebygol a sylweddol.

| **Tabl 1** | | |
|---|---|---|
| **Rhif** | **Amcan AAS / AoG** | **Cwestiynau canllaw** |
| 1 | Gwarchod a gwella cymeriad ac ansawdd y dirwedd | A fydd yn gwarchod a gwella pob math o gymeriad tirwedd?<br><br>A fydd yn diogelu tawelwch? |
| 2 | Twristiaeth gynaliadwy | A oes dealltwriaeth gyffredin o drothwyon?<br><br>A gynhelir mesurau rhagweithiol i ddiogelu’r Nodweddion Arbennig rhag effeithiau negyddol Hamdden? |
| 3 | Lleihau halogiad pridd a hyrwyddo adferiad tir halogedig | A fydd yn hwyluso symud tir halogedig a hyrwyddo adferiad? |
| 4 | Gwarchod a gwella bioamrywiaeth | A fydd yn gwarchod a gwella cynefinoedd a rhywogaethau?<br><br>A fydd yn hwyluso rheolaeth gynaliadwy o safleoedd bywyd gwyllt allweddol?<br><br>A fydd yn gweithio tuag at gyflawni statws gadwraeth ffafriol?<br><br>A fydd yn gwarchod ardaloedd o goetir hynafol?<br><br>A fydd yn gwarchod safleoedd bywyd gwyllt dynodedig?<br><br>A fydd yn diogelu uniondeb safleoedd dynodedig Ewropeaidd? |
| 5 | Cynnal a, lle bo angen, diogelu daeareg a geomorffoleg Parc Cenedlaethol Eryri | A fydd yn diogelu Safleoedd Daearegol a Geomorffolegol sy’n Rhanbarthol Bwysig<br>(RIGS)?<br><br>A fydd yn gwarchod a gwella mwynhad o adnoddau daearegol? |
| 6 | Diogelu amgylchedd hanesyddol gan gynnwys treftadaeth adeiledig, archeoleg a'r dirwedd hanesyddol | A fydd yn gwarchod:<br>Henebion Cofrestredig<br><br>Adeiladau Rhestredig<br><br>Ardaloedd cadwraeth |

| | | |
|---|---|---|
| | | Parciau a Gerddi Cofrestredig |
| 7 | Gwerthfawrogi ac amddiffyn amrywiaeth a hynodrwydd | A fydd yn gwarchod amrywiaeth a hynodrwydd lleol? |
| 8 | Gwarchod, hyrwyddo a gwella treftadaeth ddiwylliannol Eryri a'r iaith Gymraeg | A fydd yn hyrwyddo’r defnydd o'r iaith Gymraeg? |
| 9 | Sicrhau bod lleoliad a dyluniad datblygiadau newydd yn dderbyniol o ran canlyniadau posibl llifogydd | A fydd yn cynyddu'r perygl o lifogydd?<br><br>A fydd yn cynyddu'r defnydd o Systemau Draenio Cynaliadwy?<br><br>A fydd yn lleihau bregusrwydd i effeithiau newid yn yr hinsawdd? |
| 10 | Diogelu ansawdd a nifer yr adnoddau dŵr | A fydd yn gwarchod ac yn gwella ansawdd dŵr?<br><br>A fydd yn sicrhau defnydd cynaliadwy o adnoddau dŵr? |
| 11 | Lleihau gwastraff, cynyddu ailddefnyddio ac ailgylchu | A fydd yn cynyddu lefelau ailgylchu ac ail-ddefnyddio?<br><br>A fydd yn hyrwyddo manteisio ar dechnegau rheoli gwastraff cynaliadwy? |
| 12 | Hyrwyddo a hwyluso gwell cyfranogiad cymunedol | A fydd yn datblygu cyfleoedd i bawb o ran cyfranogiad cymunedol?<br><br>A fydd yn hyrwyddo’r ymdeimlad o berthyn a llesiant i bawb? |
| 13 | Annog arallgyfeirio cynaliadwy mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth | Bydd yn annog y defnydd o gynlluniau arallgyfeirio lleol? |
| 14 | Gwella'r sylfaen sgiliau lleol | A fydd yn cynyddu lefelau sgiliau perthnasol? |
| 15 | Darparu cyfleoedd dysgu | A fydd yn cynyddu’r lefelau cyfranogiad mewn addysg a dysgu?<br><br>A fydd yn cynyddu cyrhaeddiad addysgol?<br><br>A fydd yn hyrwyddo Dysgu Gydol Oes? |
| 16 | Hyrwyddo cysylltiadau trafnidiaeth da i gefnogi'r economi leol | A fydd yn lleihau pellteroedd teithio rhwng y cartref a swyddi?<br><br>A fydd yn lleihau tagfeydd traffig? |
| 17 | Cynorthwyo i greu cyfleoedd cyflogaeth leol a busnesau sy’n gysylltiedig â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol | A fydd yn cynyddu nifer y busnesau bach a chanolig? |
| 18 | Hyrwyddo mynediad i bawb trwy Ddeddf CRoW. | A fydd yn hyrwyddo mynediad i bawb trwy 'Ddeddf CRoW'? |
| 19 | Hyrwyddo cyfleoedd dysgu, darparu gwybodaeth a dehongliad | A fydd yn hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg wrth ddarparu gwybodaeth a dehongliad?<br><br>A fydd yn cynyddu darpariaeth gwybodaeth a dehongliad? |

| | | |
|---|---|---|
| 20 | Cynyddu cyfranogiad mewn ystod eang o weithgareddau a phrofiadau | A fydd yn cynyddu cyfranogiad mewn gweithgareddau awyr agored? |

NTS 11. Mae pob amcan a chamau gweithredu sy'n dod i'r amlwg o fewn Cynllun Eryri wedi cael eu hasesu’n erbyn y fframwaith hwn. Er mwyn cofnodi hyn yn dryloyw ac yn systematig, defnyddiwyd system matrics. Wrth wneud hynny, gwnaed dehongliad o oblygiadau ***tebygol a sylweddol*** gweithredu'r cynllun, gan nodi a oes canlyniadau cynaliadwyedd disgwyliedig cadarnhaol ynteu negyddol. Mae'r asesiad hefyd yn nodi lle y gallai canlyniad disgwyliedig fod yn llai sicr. Wrth ragweld canlyniadau cynaliadwyedd y cynllun sy'n dod i'r amlwg, ceisiodd y broses ystyried p’un a yw’r effeithiau cynaliadwyedd yn rhai tymor byr, tymor canolig neu dymor hir, ac a oes effeithiau cronnus neu synergaidd yn codi, er mwyn bodloni gofynion cyfreithiol. Mae'r rhain yn ystyriaethau cymhleth sy’n arwain at lefelau amrywiol o hyder o ran asesu, er bod hyn yn normal ac i'w ddisgwyl, yn enwedig o ystyried yr hyn sy’n aml yn natur ddyheadol ac amhenodol camau gweithredu’r cynllun.

**Crynodeb Canfyddiadau o'r Arfarniad o Gynaliadwyedd**

NTS12. Er mwyn deall lefel o arwyddocâd canfyddiadau’r Arfarniad o Gynaliadwyedd o Gynllun Eryri, mae angen cydnabod pwysigrwydd y cynllun o ran cefnogi datblygu cynaliadwy, ond hefyd bod y cyd-destun cyfreithiol, polisi a chyfrifoldebau rhanddeiliaid lle mae’n digwydd yn cyfyngu’n sylweddol ar y cwmpas o gamau y gellir eu mabwysiadu’n gyfreithiol. Oherwydd ei natur, ni all y cynllun, ac ni fyddai disgwyl iddo, gynnig camau gweithredu a fyddai'n gynhenid anghynaliadwy (o ystyried cyfrifoldebau statudol Awdurdod y Parc Cenedlaethol). Gall y broses Arfarniad o Gynaliadwyedd o Gynllun Eryri gael ei weld yn fwy fel mecanwaith yswiriant ychwanegol nag fel gyrrwr hanfodol o bolisïau a chamau gweithredu cynaliadwy.

NTS13. Yn y cyd-destun hwn, mae canfyddiadau allweddol y broses AoG/ AAS Cynllun Eryri yn cynnwys yr elfennau a amlinellir yn y paragraffau canlynol (a gyflwynir yn fanwl yng Nghyfrol 2 o'r Adroddiad Cynaliadwyedd llawn).

**Arfarniad o 'Opsiynau Amgen'**

NTS15. Rhan bwysig o AoG/ AAS yw profi opsiynau amgen rhesymol y cynllun, fel bod yr yr APC yn cael gwybod beth yw’r cymwysterau cynaliadwyedd gorau, er mwyn gallu bwrw ymlaen â'r rhain. Yn achos Cynllun Eryri, mae’r sbectrwm eang o bolisïau datblygu amgylcheddol, cymdeithasol a gwledig a deddfwriaeth a nodir ar lefel genedlaethol (megis dibenion statudol a dyletswydd y Parciau Cenedlaethol) a lefel y Gymuned Ewropeaidd – o’u cymryd gyda'i gilydd - yn cyfyngu'n sylfaenol ar y gallu i ystyried amcanion, neu gamau gweithredu, nad ydynt yn sylfaenol yn cefnogi canlyniadau datblygu cynaliadwy sy'n ymatebol yn lleol, a bu hyn yn ddylanwadol o gychwyn y gwaith ar y cynllun newydd.

NTS16 Felly, ystyriwyd opsiynau polisi realistig (gan ystyried yr egwyddorion a chyfyngiadau cyffredinol) fel rhan annatod o ddatblygiad ailadroddol y cynllun yn hytrach na chyfnodau penodol a phwyntiau ymgynghori, ac maent wedi eu gwrthod neu eu cadw (fel y bo'n briodol) yn y cyfnod yn arwain i fyny at y cam hwn o ddatblygiad Cynllun Eryri.

NTS17. Oherwydd y cyfyngiadau hyn a dibenion sylfaenol y cynllun (i ysgogi rheolaeth fwy cynaliadwy o Eryri), nid yw awdurdod y Parc Cenedlaethol o'r farn y gellid bod wedi cynhyrchu opsiynau polisi eraill ac yna eu hasesu'n feirniadol, gan na fyddai'r rheini'n canlyniadau dichonadwy ar gyfer y cynllun ei hun.

**Arfarniad o'r Weledigaeth a Chanlyniadau**

NTS18 Mae'r Weledigaeth yn ymrwymo i sicrhau bod yr adnoddau tirwedd, bioamrywiaeth a'r amgylchedd hanesyddol yn cael eu diogelu, ac mae hyn yn gadarnhaol yn adlewyrchu llawer o Amcanion yr AoG sy'n ymwneud ag amddiffyn yr amgylchedd diwylliannol a naturiol. Mae ffocws y Weledigaeth ar gyflenwi economi amrywiol a ffyniannus yn cyflawni'n gadarnhaol Amcanion y AoG sy'n ymwneud ag economi gynaliadwy, ac yn y tymor hir gallai helpu i ddod â budd i sylfaen sgiliau'r Parc Cenedlaethol. Hefyd rhoddir pwyslais ar yr angen i fod ag 'ymdeimlad o le' a chymunedau dwyieithog a chynhwysol, sy'n cyflawni'r Amcanion AoG hynny sy'n ymwneud â hygyrchedd amwynderau a chyfleusterau, cymunedau cynaliadwy a chynnwys y gymuned yn gadarnhaol. Mae ymdeimlad cryf o le yn hanfodol i greu teimladau o 'berthyn' a 'pherchnogaeth' ymysg cymunedau. Mae'r pwyslais a roddir ar ddiwylliant a'r iaith Gymraeg hefyd yn hanfodol i gwrdd â'r Amcanion AoG sy'n ymwneud â chadwraeth, hyrwyddo a gwella treftadaeth ddiwylliannol Eryri a'r iaith Gymraeg, a dylai hyn fod o fudd i fywiogrwydd cymunedol a meithrin dealltwriaeth dda o dreftadaeth y Parc yn y tymor hir.

NTS19 Dylanwadwyd yn gadarnhaol ar y Weledigaeth gan y broses arfarniad o gynaliadwyedd trwy gynnig ymrwymiad cliriach i 'wella', yn hytrach na dim ond gwarchod y nodweddion arbennig, a chynhwyswyd cyfeiriad at fygythiad tymor hir y newid mewn hinsawdd, a'r angen am liniaru ac addasu priodol i ddiogelu cymeriad ac ansawdd y Parc Cenedlaethol.

**Crynodeb o Asesiad Llawn o Ganlyniadau a Chamau Gweithredu Cynllun Eryri**

NTS20 Yr elfennau sylweddol o Gynllun Eryri yw ei 'ganlyniadau' arfaethedig ar gyfer dyfodol cynaliadwy cytunedig y Parc Cenedlaethol, ei amgylchedd, cymunedau, yr economi leol a threftadaeth ddiwylliannol. Mae'r asesiad o'r tri chanlyniad (gyda'r 'pholisiau' cysylltiedig sydd â mwy o ffocws) yn ffurfio'r prif gorff o ganfyddiadau'r arfarniad. Dengys Tabl 2 ganfyddiadau cryno o brofi'r cynllun sy'n dod i'r amlwg yn erbyn prawf cynaliadwyedd y Fframwaith Cynaliadwyedd (fel y dangoswyd yn Nhabl 1).

| Canlyniad | Effaith Cynaliadwyedd Cyffredinol | Sylwadau |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| **Amgylchedd Eryri:** Mae ein hasedau naturiol a hanesyddol ac amgylchoedd syfrdanol yn derbyn gofal ac yn cael eu gwella | **Cadarnhaol** | Aseswyd bod y canlyniadau yn yr adran hon o Gynllun Eryri yn cael effaith gadarnhaol a hirdymor fawr mewn 6 maes o'r fframwaith Amcanion Cynaliadwyedd o fewn y PC, a chydag effaith barhaol a risg isel o ansicrwydd.<br>Y meysydd hyn yw: Diogelu a gwella cymeriad ac ansawdd y dirwedd; Diogelu daeareg a geomorffoleg y Parc Cenedlaethol; Diogelu a gwella bioamrywiaeth; Gwerthfawrogi, gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol, gan gynnwys treftadaeth adeiledig, archeoleg a thirwedd hanesyddol; Gwerthfawrogi a diogelu amrywiaeth leol a hynodrwydd, gan gynnwys cymeriad treflun; Hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau gwastraff, cynyddu ailddefnyddio ac ailgylchu.<br><br>Mewn 7 maes arall, aseswyd eu bod yn cael effaith gadarnhaol o fewn PCE, gyda chanlyniadau parhaol a risg isel o ansicrwydd.<br><br>Yn y 13 maes uchod, roedd disgwyl hefyd i'r canlyniadau hyn gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar y lefel trawsffiniol / rhanbarthol.<br><br>Nid yw 7 o'r Amcanion Cynaliadwyedd yn uniongyrchol berthnasol i'r Canlyniad hwn, ond maent yn cael eu trafod yn fanwl mewn rhannau eraill o Gynllun Eryri. |
| **Iechyd a Llesiant Eryri:** Mae Eryri yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd i ddysgu a darganfod, ac ar yr un pryd, yn gwella ein llesiant | **Cadarnhaol** | Aseswyd bod y canlyniadau yn yr adran hon o Gynllun Eryri yn cael effaith gadarnhaol a hirdymor fawr mewn 6 maes o'r fframwaith Amcanion Cynaliadwyedd o fewn y PC, a chyda risg isel o ansicrwydd.<br>Y meysydd hyn yw: Gwarchod, hyrwyddo a gwella treftadaeth ddiwylliannol Eryri a'r iaith Gymraeg; Hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol gan y cyhoedd; Hyrwyddo a hwyluso gwell cyfranogiad cymunedol; Darparu cyfleoedd dysgu; Hyrwyddo cysylltiadau trafnidiaeth da i gefnogi'r economi leol; Hyrwyddo dealltwriaeth, gwerthfawrogi a mwynhau iaith a'r dreftadaeth ddiwylliannol yn ei ystyr ehangaf.<br><br>Mewn 6 maes arall, aseswyd eu bod yn cael effaith gadarnhaol o fewn PCE, gyda chanlyniadau parhaol a risg isel o ansicrwydd.<br><br>Yn y 12 maes uchod, roedd disgwyl hefyd i'r canlyniadau hyn gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar y lefel trawsffiniol / rhanbarthol.<br><br>Nid yw 8 o'r Amcanion Cynaliadwyedd yn uniongyrchol berthnasol i'r Canlyniad hwn, ond maent yn cael eu trafod yn fanwl mewn rhannau eraill o Gynllun Eryri. |
| **Cymuned ac Economi Eryri:** Mae Eryri yn lle gwych i fyw, | **Cadarnhaol** | Aseswyd bod y canlyniadau yn yr adran hon o Gynllun Eryri yn cael effaith gadarnhaol a hirdymor fawr mewn 5 maes o'r fframwaith Amcanion Cynaliadwyedd o fewn y PC, a chyda risg isel o ansicrwydd. |

| | | |
|---|---|---|
| datblygu a gweithio | | Y meysydd hyn yw: Gwarchod, hyrwyddo a gwella treftadaeth ddiwylliannol Eryri a'r iaith Gymraeg; Hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol gan y cyhoedd; Hyrwyddo dealltwriaeth, gwerthfawrogi a mwynhau iaith a'r dreftadaeth ddiwylliannol yn ei ystyr ehangaf; Hyrwyddo a hwyluso gwell cyfranogiad cymunedol; Darparu cyfleoedd dysgu.<br><br>Mewn 8 maes arall, aseswyd eu bod yn cael effaith gadarnhaol o fewn PCE, gyda chanlyniadau parhaol a risg isel o ansicrwydd.<br><br>Yn y 13 maes uchod, roedd disgwyl hefyd i'r canlyniadau hyn gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar y lefel trawsffiniol / rhanbarthol.<br><br>Nid yw 7 o'r Amcanion Cynaliadwyedd yn uniongyrchol berthnasol i'r Canlyniad hwn, ond maent yn cael eu trafod yn fanwl mewn rhannau eraill o Gynllun Eryri. |

NTS*22.* ***Canfu'r arfarniad o gynaliadwyedd, felly, bod holl effeithiau disgwyliedig gweithredu Cynllun Eryri o ran cwrdd â'r amcanion fframwaith cynaliadwyedd naill ai'n gadarnhaol (h.y. yn debygol o hyrwyddo datblygu cynaliadwy ymhellach) neu'n niwtral (h.y. heb unrhyw ddylanwad perthnasol ar rai profion cynaliadwyedd).***

NTS 23. Oherwydd y dull consensws hirdymor a yrrir gan randdeiliaid o wneud penderfyniadau, cynnal arfarniad cynaliadwyedd, a'r cyd-destun statudol, dylid disgwyl y lefelau uchel hyn o berfformiad cynaliadwyedd a nodwyd yn yr adroddiad. Mae polisi a chyfraith genedlaethol a nodweddion unigryw ac arbennig Parc Cenedlaethol Eryri i gyd yn cyfuno i osod amrywiaeth bwerus o ddylanwadau sy'n debygol o arwain at gynllun sy'n canolbwyntio ar ddatblygu cynaliadwy, ac mae'r Adroddiad o Gynaliadwyedd yn cefnogi hyn. Cynorthwyodd y broses arfarniad o gynaliadwyedd hyd at y cam hwn o ddatblygiad y Cynllun Eryri i sicrhau bod y cynllun yn hyrwyddo ymhellach yr amcanion datblygu cynaliadwy pan gaiff ei fabwysiadu, ac y bydd yn cael ei ddefnyddio i ddylanwadu ar reolaeth materion amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol yn Eryri. Lle mae'r broses wedi canfod fod rhannau o'r cynllun yn aneglur o safbwynt sut yr effeithir ar amcanion datblygu cynaliadwy, bydd polisïau a mesurau diogelu polisi eraill yn sicrhau na ddylai niwed o'r fath ddigwydd, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

NTS24. Bydd y broses arfarniad o gynaliadwyedd yn parhau os y gwneir unrhyw newidiadau sylweddol i Gynllun Eryri cyn iddo gael ei fabwysiadu'n derfynol gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystod gwanwyn 2020.

NTS25. I gael dealltwriaeth fanwl o'r broses, ei chyd-destun polisi a'r canfyddiadau penodol, gweler Adroddiad o Gynaliadwyedd llawn o Gynllun Eryri yn

https://www.eryri.llyw.cymru/authority/working-in-partnership/consultation